INSPIRING IMPACT

Y Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith

Mehefin 2013

ncvo

Inspiring Impact

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith wedi cael ei ddatblygu drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar draws y sectorau a thrwy fewnbwn gan weithgor sy'n cynnwys 17 o sefydliadau (gweler yr Atodiad am restr). Fe'i paratowyd gan y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO) fel rhan o raglen Inspiring Impact.

Mae **Inspiring Impact** yn rhaglen sydd â'r bwriad o newid sut mae sector gwirfoddol y DU yn meddwl am effaith a gwneud dulliau mesur effaith o safon yn norm i elusennau a mentrau cymdeithasol erbyn 2022.

Dros y degawd nesaf byddwn yn gweithio tuag at bum amcan allweddol o dan bum thema, ac yn ateb pum cwestiwn allweddol ar ran y sector:

- Beth yw ymarfer da wrth adrodd effaith?
- Sut rydym ni'n gwybod beth sydd angen ei fesur?
- Sut byddwn ni'n mesur hyn?
- Sut gallwn ni gymharu ag eraill a dysgu oddi wrthynt?
- Beth yw rôl y cyllidwyr?

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.inspiringimpact.org

Partneriaid Inspiring Impact

Noddwyr Inspiring Impact

Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith

Cynnwys

Cyflwyniad....4
Y cod ymarfer ar gyfer adrodd effaith: Crynodeb....6
Cymryd cyfrifoldeb am effaith ac annog eraill i wneud hynny hefyd....7
Canolbwyntio ar bwrpas....8
Cynnwys eraill yn eich ymarfer adrodd effaith....9
Defnyddio adnoddau a dulliau cymesur a phriodol....10
Ystyried ystod lawn y gwahaniaeth a wnewch....11
Bod yn onest ac yn agored....13
Bod yn barod i newid a gweithredu ar yr hyn rydych yn ei ddarganfod....14
Mynd ati i rannu eich cynlluniau, dulliau, canfyddiadau a gwersi yng nghyswllt effaith....15
Atodiad: Ynglŷn â'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith....16

Cyflwyniad

Effaith yw'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud. Drwy ganolbwyntio ar eich effaith, gallwch wneud mwy o wahaniaeth drwy eich gwaith. Mae hyn yn golygu cynllunio pa effaith rydych am ei chael a'r ffordd orau o'i chyflawni, casglu gwybodaeth am eich effaith, asesu pa effaith rydych chi'n ei chael, cyfleu'r wybodaeth hon a dysgu oddi wrthi. Galwn y cylch hwn o weithgareddau yn ymarfer adrodd effaith. Mae hyn yn cynnwys tasgau fel mesur, monitro a gwerthuso effaith, i enwi dim ond ychydig.

Defnyddir llawer o dermau i drafod y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud a'r gwaith rydych chi'n ei wneud, yn cynnwys canlyniadau, gweithgareddau ac allbynnau. Mae'r rhain i gyd wedi'u diffinio'n glir yn y cyfleuster esbonio jargon ar-lein ar gyfer y pwnc hwn (www.jargonbusters.org.uk) Mae'r gwahaniaeth pwysicaf rhwng y gwaith rydych chi'n ei wneud a'r gwahaniaeth y mae'r gwaith hwnnw'n ei wneud: mae'n rhy hawdd canolbwyntio ar eich gwaith o ddydd i ddydd, ond gellir dadlau mai'r effaith rydych chi'n ei chael, a sut gallwch chi greu mwy o effaith byth, yw'r peth pwysicaf. Er mwyn bod yn syml, defnyddir y termau canlynol drwy gydol y Cod hwn i drafod y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud a'r gwaith o ganolbwyntio arno:

Effaith: effeithiau eang neu dymor hwy prosiect neu waith sefydliad (y cyfeirir ati hefyd fel y gwahaniaeth y mae'n ei wneud). Gall hyn gynnwys effeithiau ar bobl sy'n defnyddio prosiect neu waith sefydliad yn uniongyrchol, effeithiau ar y rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau'n uniongyrchol, neu effeithiau ar faes ehangach fel polisi'r llywodraeth.

Ymarfer adrodd effaith: y gweithgareddau y bydd sefydliad yn eu cyflawni i ganolbwyntio ar ei effaith. Gall hyn gynnwys cynllunio'r effaith a ddymunir, cynllunio sut i'w mesur, casglu gwybodaeth amdani, gwneud synnwyr o'r wybodaeth honno, ei chyfleu a dysgu ohoni.

Mae llawer o sefydliadau di-elw* yn deall yr angen am ymarfer da wrth adrodd effaith ac maent am wella eu harferion. Ond gallant ddod ar draws gwahanol ddiffiniadau, esboniadau dryslyd, llu o ddulliau gwahanol ac weithiau, cyngor croes.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith yn darparu canllawiau eang, y cytunwyd arnynt ar gyfer canolbwyntio ar effaith. Mae'n nodi cylch o ymarfer effaith a chyfres o egwyddorion lefel uchel i'w dilyn. Mae pob egwyddor yn cynnwys disgrifiad bras o'ch ymarfer adrodd effaith pe baech yn rhoi'r egwyddor ar waith, esboniad sy'n nodi pam ei bod yn bwysig a rhai syniadau am sut i'w gweithredu.

Mae'r cylch a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon yn ddilys ar gyfer pob math o sefydliadau di-elw. Maent wedi'u bwriadu hefyd i helpu cyllidwyr a chomisiynwyr i gael dealltwriaeth realistig a phriodol o ymarfer da wrth adrodd effaith ar gyfer sefydliadau di-elw.

* Mae elusennau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau eraill sy'n anllywodraethol, wedi'u hysgogi gan werth (wedi'u sbarduno'n bennaf gan yr awydd i ddatblygu ymhellach amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol yn hytrach na gwneud elw fel y cyfryw) ac sy'n ailfuddsoddi gwargedau yn bennaf i ddatblygu ymhellach eu hamcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith yn argymell y dylai pawb mewn sefydliad ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb am effaith. Fodd bynnag, bydd rhai o'r egwyddorion yn berthnasol i bobl â rolau penodol yn y sefydliad yn arbennig. Os ydych chi'n ystyried defnyddio'r Cod yn eich sefydliad chi, efallai y byddwch am ddyrannu cyfrifoldeb am egwyddorion penodol i bobl benodol.

Cytunwyd ar egwyddorion y Cod Ymarfer hwn ar gyfer Adrodd Effaith ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes adrodd effaith ac ymgynghorwyd arnynt yn eang ar draws y sector di-elw. Gobeithio y bydd hyn yn eich gwneud yn hyderus i roi'r egwyddorion ar waith ar bob cam o'ch gwaith, trafod eich ymarfer wrth adrodd effaith gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, ac archwilio'r dulliau mwyaf priodol o adrodd effaith ar gyfer eich gwaith.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith yn rhan o'r agwedd *Arweinyddiaeth Effaith* ar waith Inspiring Impact, sy'n cynnwys Ydych chi'n Arwain ar gyfer Effaith?. Mae'r cylch a'r egwyddorion yn y Cod yn ategu Egwyddorion a Ffactorau Sbarduno Ymarfer Da wrth Adrodd Effaith y Cyllidwyr (*Funders' Principles and Drivers of Good Impact Practice* yn Saesneg) hefyd, ac yn sail iddynt mae'r adnodd hunanasesu cam wrth gam, *Measuring Up*, a ddatblygwyd o dan yr agwedd *Cydlynu Cymorth* ar waith Inspiring Impact. Mae *Measuring Up* yn edrych yn fanwl at sut gall sefydliad roi'r egwyddorion ar waith mewn modd ymarferol ac effeithiol ar bob cam o'r ymarfer adrodd effaith, a thrwy weithio drwy bob cam o'r adnodd, gallwch nodi'r meysydd hynny lle mae eich ymarfer adrodd effaith yn llwyddo a'r meysydd hynny lle mae angen i chi wella. I'r rhai sydd â diddordeb yn y posibilrwydd o ddulliau mesur a rennir, gellir darllen y Cod hefyd ar y cyd â'r Canllaw ar gyfer Mesur a Rennir (*The Blueprint for Shared Measurement* yn Saesneg).

Bydd Inspiring Impact yn parhau i greu cynnyrch sy'n cefnogi ymarfer adrodd effaith. Gallwch ddarllen am ddatblygiad y rhain, a'r rhaglen, drwy inspiringimpact.org.

Y cod ymarfer ar gyfer adrodd effaith: Crynodeb

Y cylch adrodd effaith

Mae pedwar prif faes o weithgarwch sy'n rhan o adrodd effaith:



Rydym yn cydnabod bod sefydliadau di-elw yn gweithredu mewn modd cymhleth a'i bod yn annhebygol y byddwch yn dilyn proses cam wrth gam yn gaeth, ond mae'r cylch hwn yn dangos y pedwar prif faes o weithgarwch y dylech eu cyflawni ar ryw adeg i ganolbwyntio ar eich effaith.

Ymarfer da

Mae wyth egwyddor gyffredinol sy'n diffinio ymarfer da drwy gydol y cylch:

1. Cymryd cyfrifoldeb am effaith ac annog eraill i wneud hynny hefyd.
2. Canolbwyntio ar bwrpas.
3. Cynnwys eraill yn eich arferion adrodd effaith.
4. Defnyddio adnoddau a dulliau cymesur a phriodol.
5. Ystyried ystod lawn y gwahaniaeth a wnewch.
6. Bod yn onest ac yn agored.
7. Bod yn barod i newid a gweithredu ar yr hyn rydych yn ei ganfod.
8. Mynd ati i rannu eich cynlluniau, dulliau, canfyddiadau a gwersi yng nghyswllt effaith.

Egwyddor 1
Cymryd cyfrifoldeb am effaith ac annog eraill i wneud hynny hefyd

Mae arweinyddion eich sefydliad, yn enwedig y bwrdd ymddiriedolwyr a'r prif weithredwyr, o'r farn mai cyflawni effaith yw eu prif gyfrifoldeb a dyletswydd. Chi sy'n diffinio effaith fwriadedig eich sefydliad; nid eich cyllidwyr sy'n arwain y gwaith hwn.

Mae effaith wedi'i chynnwys yn niwylliant eich sefydliad. Mae pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn credu mai ei gyfrifoldeb ef ei hun yw creu effaith drwy ei waith, i chwarae ei ran o ran dangos sut mae ei waith yn gwneud gwahaniaeth a rhannu'r gwersi y mae'n eu dysgu ag eraill.

Mae canolbwyntio ar effaith drwy ymarfer adrodd effaith yn weithgarwch parhaus ac nid yw'n fenter untro nac yn ôl-ystyriaeth.

Pam?

- Yr effaith rydych chi'n ei chael yw'r rheswm pam mae eich sefydliad yn bodoli a dylid rhoi blaenoriaeth iddi uwchlaw popeth arall.
- Mae canolbwyntio ar effaith staff a gwirfoddolwyr yn gallu eu hysgogi i greu mwy o effaith.
- Os yw pawb yn deall eu rôl o safbwynt effaith y sefydliad, gallant weithio gyda'i gilydd yn well a sicrhau nad yw'r dasg o ganolbwyntio ar effaith yn cael ei throsglwyddo i un rôl neu dîm penodol.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Sicrhewch fod effaith wrth wraidd cynlluniau, strategaeth a phenderfyniadau eich sefydliad. • Helpwch y staff i ddeall sut y gall eu gwaith eu hunain gyfrannu at effaith fwriadedig y sefydliad. • Buddsoddwch mewn gwella sgiliau staff a gwirfoddolwyr o ran ymarfer adrodd effaith gan ddyrannu'r cymorth a'r adnoddau ar gyfer hyn (e.e. darparu hyfforddiant ar asesu effaith).
GWNEUD	• Gallech gynnwys effaith (a fwriadwyd ac a gyflawnwyd) ym mhrosesau'r sefydliad fel arfarniadau, disgrifiadau swydd, cyfnodau sefydlu, areithiau gadael, diwrnodau cwrdd i ffwrdd, cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd y bwrdd ymddiriedolwyr a holl gyfarfodydd y staff. • Gallech gynnwys amrywiaeth o staff a gwirfoddolwyr yn y broses o gasglu gwybodaeth am effaith mewn modd sy'n rhan o'r gwaith o ddydd i ddydd (e.e. os ydych chi'n cyflawni gwaith grŵp cyfranogol, casglwch wybodaeth am effaith drwy'r gwaith grŵp cyfranogol hwn).
ASESU	• Anogwch bob aelod o staff a gwirfoddolwr i ofyn iddo ef ei hun 'pa wahaniaeth ydw i'n ei wneud?' • Sicrhewch fod arweinyddion y sefydliad yn rhan o'r gwaith o ystyried beth mae'r wybodaeth am effaith yn ei ddweud wrthynt. Nid gwaith un person ddylai hyn fod.
ADOLYGU	• Dathlwch yr effaith a gyflawnwyd. • Anogwch y staff a'r gwirfoddolwyr i rannu straeon am effaith.

Egwyddor 2
Canolbwyntio ar bwrpas

Rydych chi'n glir am eich diben fel sefydliad: y gwahaniaeth rydych chi'n bodoli i'w wneud. Gallwch esbonio eich effaith ddisgwyliedig o ran ateb y diben hwn. Gallwch ddisgrifio sut byddwch chi'n creu'r effaith hon, yn syml ac mewn ffyrdd y gall pawb eu deall (yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr, buddiolwyr, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill).

Pam?

- Er mwyn i bawb wybod beth mae'r sefydliad am ei gyflawni fel bod modd iddynt gyfrannu at hynny.
- Sicrhau bod gan staff a gwirfoddolwyr ddealltwriaeth well o flaenoriaethau'r sefydliad, a'r rhesymau drostynt, fel eu bod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau am ba waith y dylid canolbwyntio arno er mwyn cael yr effaith fwyaf.
- Ei gwneud yn hawdd asesu ac adolygu'r effaith a gewch chi, gan fod gennych chi gynllun i gymharu ag ef.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Dylech gynllunio'r effaith rydych chi am ei chael, nid dim ond y gwaith y byddwch chi'n ei wneud. Dylech benderfynu ar eich effaith fwriadedig gyntaf, a hynny ar sail gwybodaeth am anghenion presennol eich buddiolwyr bwriadedig. Yna gallwch ystyried ffyrdd o gyflawni'r effaith honno. • Meddyliwch am ffordd glir o esbonio sut bydd y gwaith a wnewch chi'n creu eich effaith fwriadedig, fel bod modd i chi gyfleu eich cynlluniau'n hawdd. • Meddyliwch am bwy sydd angen cael gwybodaeth am eich effaith, beth sydd angen iddynt ei wybod ac ym mha fformat. Yna ewch ati i drefnu bod gwybodaeth yn cael ei chasglu a fydd yn diwallu'r anghenion hynny.
GWNEUD	• Dylech ystyried effaith wrth gyflawni eich gwaith o ddydd i ddydd. • Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn angenrheidiol y dylech ei chasglu am eich effaith; ceisiwch osgoi gwybodaeth 'rhag ofn'.
ASESU	• Cymharwch eich canfyddiadau am yr effaith rydych chi'n ei chael â'ch cynlluniau i weld i ba raddau rydych chi wedi llwyddo i'w cyflawni. Byddwch am ystyried hefyd a gawsoch chi effaith nad oeddech wedi'i bwriadu (gweler egwyddor 5).
ADOLYGU	• Cymerwch gamau gweithredu i wella eich gwaith er mwyn i chi fod yn agosach at gyflawni eich effaith fwriadedig yn y dyfodol. • Defnyddiwch yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'ch canfyddiadau am yr effaith rydych chi wedi'i chyflawni er mwyn ystyried a oes angen i chi newid yr effaith rydych chi'n bwriadu ei chael yn y dyfodol.

Egwyddor 3
Cynnwys eraill yn eich ymarfer adrodd effaith

Rydych chi'n chwilio am gyfleoedd priodol i gynnwys eraill ar bob cam o'r ymarfer adrodd effaith. Mae hyn yn golygu, fan leiaf, y dylid cynnwys y rhai â phrofiad uniongyrchol o weithgareddau'r sefydliad (yn cynnwys buddiolwyr, staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid prosiect). Gallai hefyd gynnwys sefydliadau eraill sy'n gwneud gwaith tebyg neu gyllidwyr.

Pam?

- Eich helpu i ddeall mwy am sut mae eich gwaith yn effeithio ar eraill, a sut mae eraill yn effeithio ar eich gwaith chi.
- Eich helpu i greu cynlluniau mwy credadwy sy'n cynnwys safbwyntiau gwahanol. Gall fod safbwyntiau gwahanol ar werthoedd mathau gwahanol o effaith.
- Sicrhau bod y gwaith o ddadansoddi ac asesu effaith yn gadarn, ac nad yw'n dueddol nac yn unochrog.
- Creu diddordeb yn eich gwaith a'ch effaith, a galluogi mwy o bobl i ddysgu oddi wrtho.
- Amlygu cyfleoedd i gydweithio, a all arwain at fwy o effaith byth.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Dylech gynnwys pobl eraill yn y gwaith o ddiffinio'r effaith rydych chi'n bwriadu ei chael er mwyn cael amrywiaeth o safbwyntiau (e.e. beth am ystyried yr hyn sydd fwyaf pwysig ym marn y buddiolwyr, rhag ofn bod eu barn nhw yn wahanol i farn y sefydliad). • Pan fyddwch yn cynllunio eich gwaith mesur effaith, dylech gytuno ag eraill (e.e. ymddiriedolwyr, cyllidwyr) yr hyn rydych yn ceisio ei ddysgu a sut y caiff y canfyddiadau eu defnyddio i wella.
GWNEUD	• Dylech sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i bobl gymryd rhan yn y gwaith o gasglu gwybodaeth am eich effaith (e.e. eu galluogi i gasglu gwybodaeth mewn modd y maent yn gyfforddus ag ef, h.y. ar bapur, gan ddefnyddio fideo neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol). • Os yw'n briodol, dylech gynnwys buddiolwyr yn y gwaith o gasglu gwybodaeth am eich effaith, neu o ran sicrhau ansawdd y modd rydych yn mynd ati i wneud hynny.
ASESU	• Os yw'n briodol, dylech gynnwys buddiolwyr yn y gwaith o adolygu a gwerthuso gwybodaeth a'ch helpu i ddeall beth mae'n ei olygu. Yn ogystal â chyflwyno safbwyntiau newydd i chi, gall hyn helpu i feithrin eu sgiliau. • Dylech wahodd rhanddeiliaid (e.e. sefydliadau eraill) i'ch helpu i brofi tybiaethau a wnaed am yr effaith a grëwyd, er enghraifft drwy ofyn iddynt 'beth wnaeth y gwahaniaeth, yn eich barn chi?'.
ADOLYGU	• Rhowch adborth ar eich canfyddiadau i bawb a gymerodd ran yn eich ymarfer adrodd effaith. Gall y dysgu hwn fod o fudd iddyn nhw hefyd. • Rhannwch wybodaeth am effaith gan sefydliadau eraill a gofynnwch iddynt rannu eich gwybodaeth chi (gweler Egwyddor 8).

Egwyddor 4
Defnyddio adnoddau a dulliau cymesur a phriodol

Rydych chi'n realistig ynghylch eich ymarfer adrodd effaith – rydych chi'n defnyddio amser, ymdrech a dulliau sy'n gymesur ac yn briodol i gwmpas a maint y gwaith. Os yw cymhlethdod neu adnoddau yn peri pryder yna byddwch yn syml a gwnewch yr hyn y gallwch chi i ganolbwyntio ar eich effaith.

Byddwch yn dewis eich dulliau cynllunio, asesu ac adolygu effaith yn dibynnu ar y math o waith rydych chi'n ei wneud ac yn ôl faint o risg neu niwed posibl sydd ynghlwm wrth y gwaith. Mae'r dulliau hyn yn gyson â gwerthoedd ac ethos eich sefydliad. Rydych chi'n glir hefyd ynghylch y diben o gasglu gwybodaeth am effaith, pwy fydd yn ei defnyddio ac ar gyfer beth.

Pam?

- Canolbwyntio eich adnoddau a'ch amser gwerthfawr lle bo'u hangen fwyaf.
- Sicrhau nad ydych chi'n pennu targedau ar gyfer ymarfer adrodd effaith nad oes modd eu cyflawni nac yn cael eich annog i beidio â gwneud dim byd o gwbl.
- Eich helpu i feddwl yn ofalus am y dulliau a'r adnoddau rydych chi'n eu defnyddio fel bod modd i chi esbonio pam roeddent yn briodol a pham maent yn gadarn yn wyneb craffu.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Cyfatebwch yr amser a'r ymdrech a ddefnyddiwch i gynllunio eich effaith fwriadedig i'r risg sydd ynghlwm wrth eich gwaith a maint y gwaith hwnnw. • Wrth gynllunio, beth am ganfod pa lefel o wybodaeth, pa fath o wybodaeth a fformat y wybodaeth rydych chi a rhanddeiliaid eraill (e.e. cyllidwyr) yn ei disgwyl ac sydd ei hangen arnoch, gan nodi pam. Trafodwch a yw'r wybodaeth yn angenrheidiol; gall rhanddeiliaid fod yn agored i'w derbyn mewn fformat gwahanol. • Ystyriwch pa wybodaeth neu dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a pha un a oes wir angen i chi gasglu neu greu rhagor. Ystyriwch hefyd fod yn rhaid i'r fantais o gael gwybodaeth fod yn bwysicach na'r costau sy'n gysylltiedig â'i chasglu. Gall defnyddio adnoddau casglu data syml, am ddim yn aml, fod yn briodol a gallant ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol.
GWNEUD	• Cofiwch nad oes angen asesu popeth bob tro. Gallwch ddefnyddio canfyddiadau blaenorol neu adeiladu arnynt neu gasglu gwybodaeth am effaith o sampl.
ASESU	• Mae tystiolaeth resymol o effaith yn ddigonol; peidiwch â disgwyl dod o hyd i brawf pendant. • Ystyriwch a oes angen cefnogaeth allanol i ychwanegu gwerth at eich canfyddiadau neu p'un a allwch lunio casgliadau cadarn gan ddefnyddio eich sgiliau a'ch gwybodaeth eich hun.
ADOLYGU	• Dylech nodi'r manylion am eich effaith sy'n gymesur i faint, cwmpas a risg y gwaith. • Sicrhewch fod hyd a fformat yr hyn rydych am ei gyfleu am effaith yn briodol i'r gynulleidfa. • Rhowch niferoedd a straeon hefyd. Mae'r niferoedd yn esbonio cyd-destun y straeon, ac mae'r straeon yn dod â'r hyn rydych yn ei gyfleu am eich effaith yn fyw.

Egwyddor 5
Ystyried ystod lawn y gwahaniaeth a wnewch

Gallai eich gwaith fod yn cael effaith ehangach a thymor hwy nag a ragwelwyd gennych chi neu eraill, ac rydych am geisio deall hyn. Yn yr un modd, rydych yn ymwybodol y gall y newidiadau a welwch fod wedi digwydd heb i chi fod yn rhan ohonynt, gallant fod yn fyrdymor, neu gallant ddeillio o waith pobl eraill.

Rydych chi'n gwybod nad oes angen i chi gynllunio ar gyfer popeth dan haul na'u hasesu, ond rydych chi'n ymwybodol y gallech chi gael effaith y tu hwnt i'ch buddiolwyr bwriadedig, boed yn effaith negyddol neu'n effaith gadarnhaol, neu'n effaith and oeddech wedi'i bwriadu. Er eich bod yn ceisio lleihau effaith negyddol, nid oes modd ei hosgoi weithiau. Rydych chi'n cydnabod mewn rhai achosion, fod yn rhaid i chi gydbwyso effaith gadarnhaol ar eich buddiolwyr ag effaith negyddol ar eraill.

Pam?

- Dysgu o'ch gwaith a dangos yr effaith lawn rydych chi'n ei chael heb orddatgan hyn. Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i addasu eich gwaith yn briodol i fanteisio i'r eithaf ar yr effaith rydych chi'n bwriadu ei chael.
- Dangos lle y cawsoch effaith fwy cadarnhaol (neu wahanol) na'r disgwyl, fel eich bod chi, ac eraill, mewn sefyllfa well i werthfawrogi gwerth llawn eich gwaith.
- Dangos lle rydych chi'n cael effaith negyddol anfwriadedig ar bobl, sefydliadau neu'r amgylchedd a lle mae angen i chi weithredu i osgoi, lleihau neu gydbwyso effaith o'r fath yn y dyfodol.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Meddyliwch yn eang am y buddiolwyr gwahanol y gallech gael effaith arnynt drwy eich gwaith (e.e. staff, sefydliadau eraill, grwpiau cymdeithasol eraill, eich amgylchedd lleol) wrth gynllunio eich effaith. Ar y cam hwn, dylech ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â chael effaith negyddol a pha un a oes angen i chi addasu eich gwaith i'w lleihau neu ei hosgoi.
GWNEUD	• Olrhain unrhyw adborth cadarnhaol neu gwynion annisgwyl a gewch a myfyrio arnynt wrth i chi gyflawni eich gwaith.
ASESU	• Ystyriwch beth sydd wedi newid, beth sydd wedi cyfrannu at y newid hwnnw, a'ch rôl yn hyn. Dylech bob amser ystyried esboniadau am batrymau yn eich gwybodaeth am effaith a pheidiwch â diystyru gwybodaeth sy'n negyddol neu wybodaeth nad yw'n cyd-fynd â'ch effeithiau bwriadedig.

ADOLYGU	
	• Dylech gyfleu gwybodaeth am unrhyw effaith ehangach na'r hyn roeddech wedi'i fwriadu. Dylech gynnwys canfyddiadau am effaith negyddol a'r hyn a gaiff ei wneud i'w leihau neu sut a pham y caiff ei chydbwyso ag effaith gadarnhaol. • Defnyddiwch y wybodaeth sydd gennych am eich effaith lawn i addasu eich gwaith er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr effaith rydych yn bwriadu ei chael yn y dyfodol.

Egwyddor 6
Bod yn onest ac yn agored

Rydych chi'n onest ac yn agored am yr effaith rydych chi'n bwriadu'i chael ac am eich canfyddiadau ar y gwahaniaeth rydych chi wedi'i gael neu nad ydych chi wedi'i gael, yn ogystal â pha un a ydych chi wedi dysgu o'r canfyddiadau hyn a sut byddwch chi'n gweithredu ar y gwersi hyn.

Rydych chi'n onest ac yn agored hefyd am gwmpas eich ymarfer adrodd effaith, fel bod eraill yn ymwybodol o unrhyw eithriadau neu gyfyngiadau ar ba wybodaeth sydd wedi'i chasglu a sut, sut mae wedi'i hasesu a sut cyflwynwyd adroddiad arni.

Rydych chi a'ch cyllidwyr yn trafod yn onest ac yn agored yr hyn nad yw wedi bod mor llwyddiannus ac yn dysgu oddi wrtho, er gwaethaf unrhyw bryderon a all fod gennych am ddatgelu'r cyfyngiadau neu'r gwersi hyn.

Pam?

- Cefnogi dysgu gwirioneddol am yr hyn sy'n gweithio, ar gyfer staff yn eich sefydliad ac ar gyfer y cyllidwyr, a all arwain at wasanaethau gwell ar gyfer y buddiolwyr.
- Annog diwylliant o fod yn agored, dysgu a thrafod ar gyfer gwella, yn hytrach na gweld bai (yn y sefydliad a rhwng sefydliadau).
- Dangos bod eich sefydliad yn dryloyw, a fydd yn gwneud i bobl gael mwy o ffydd ynddoch.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Byddwch yn onest ac yn agored am faint o wahaniaeth rydych chi'n anelu at ei wneud, yn cynnwys yr hyn nad yw wedi gweithio yn y gorffennol. • Esboniwch yr hyn sy'n sail i'ch ymagwedd a'ch dulliau arfaethedig ar gyfer mesur effaith. Bydd hyn yn eu helpu i fod yn gadarn yn wyneb craffu ac yn eu gwneud yn fwy credadwy, yn eich sefydliad chi a thu hwnt.
GWNEUD	• Dywedwch wrth staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr pam rydych chi'n casglu gwybodaeth am effaith a beth fyddwch chi'n ei wneud gyda hi (e.e. diwygio gwasanaeth).
ASESU	• Byddwch yn onest wrth ystyried y cyfraniadau a wneir gan eraill at yr effaith wirioneddol a gyflawnwyd; peidiwch â gorhawlio neu danhawlio. Mae'n fwy realistig trafod y cyfraniad rydych chi wedi'i wneud yn hytrach na cheisio priodoli effaith i'ch gwaith chi yn unig.
ADOLYGU	• Dylech gyfleu'r meysydd lle rydych chi wedi cael effaith gadarnhaol yn ogystal â'r meysydd lle nad ydych wedi cael effaith mor llwyddiannus, neu feysydd lle cafwyd effaith negyddol neu ddim effaith o gwbl. Mae hyn yr un mor bwysig i gynulleidfaoedd mewnol (fel staff, gwirfoddolwyr, buddiolwyr) ag i gynulleidfaoedd allanol (fel cyllidwyr, rhanddeiliaid, sefydliadau eraill). • Dylech ganolbwyntio ar ddysgu o ganlyniad i ganfod pa effaith rydych chi wedi'i chael neu nad ydych chi wedi'i chael yn hytrach na gweld bai.

Egwyddor 7
Bod yn barod i newid a gweithredu ar yr hyn rydych yn ei ddarganfod

Rydych chi'n barod i newid yn sgil darganfod pa effaith rydych chi'n ei chael neu nad ydych chi'n ei chael, ac rydych chi'n barod i dderbyn nad ydych, o bosibl, yn cael yr effaith roeddech chi wedi'i bwriadu.

Rydych chi'n ymrwymo i ddysgu o ganfyddiadau eich asesiad o effaith ac rydych yn mynd ati i'w defnyddio i lywio gwaith cynllunio a gweithredu yn y sefydliad.

Mae eich cyllidwyr yn barod i ddysgu a newid, ac i weithio gyda'i gilydd i fyfyrio, mireinio a dysgu.

Pam?

- Gwella gwasanaethau ac effaith ar gyfer y buddiolwyr gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.
- Fel bod y wybodaeth a gasglwch am effaith yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau, ac er mwyn osgoi gwastraffu amser a chamau gweithredu.
- Atgyfnerthu ymrwymiad staff a'r gwirfoddolwyr i adrodd effaith, am eu bod yn gallu gweld bod camau gweithredu yn cael eu cymryd a bod pethau'n newid yn sgil hynny.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Nodwch y penderfyniadau y mae angen i chi eu gwneud a chynlluniwch ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith a all helpu i lywio'r penderfyniadau hynny. • Sicrhewch fod y wybodaeth a gasglwch am effaith yn amserol er mwyn iddi allu llywio'r broses gyllidebu, cynllunio a phenderfyniadau cyn i'r gwasanaeth neu'r fenter ddigwydd eto.
GWNEUD	• Rhowch gyfrifoldeb i'r staff am ddod o hyd i lwyddiannau a methiannau ar raddfa fach ac am wneud gwelliannau cyflym ar lawr gwlad.
ASESU	• Byddwch yn barod i lunio casgliadau o'r canfyddiadau am eich effaith. Byddwch yn ymwybodol o fuddiannau personol, yn enwedig ymhlith staff neu wirfoddolwyr sydd wedi darparu gwasanaeth penodol mewn modd penodol am gyfnod hir neu fuddiolwyr sydd wedi dod i arfer â chael cynnyrch neu wasanaeth penodol.
ADOLYGU	• Dylech groesawu newid a'i alluogi os yw eich asesiad o effaith yn dangos nad yw rhywbeth yn llwyddo cystal ag yr oeddech yn ei feddwl. • Dylech gyfleu'r canfyddiadau, cynlluniau ar gyfer newid a'r rhesymau drostynt. Efallai y bydd angen i chi drafod y rhain gyda'r cyllidwyr. • Adolygwch y wybodaeth rydych chi'n ei chasglu am eich effaith, i weld a ydych chi mewn gwirionedd yn ei defnyddio i lywio penderfyniadau a chamau gweithredu.

Egwyddor 8

Mynd ati i rannu eich cynlluniau, dulliau, canfyddiadau a gwersi yng nghyswllt effaith

Rydych chi'n cyfleu eich cynlluniau, dulliau, canfyddiadau a gwersi yng nghyswllt effaith i sicrhau bod eraill yn gwybod beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni ac i gyfrannu at ddarlun ehangach o'r hyn sy'n llwyddo neu'r hyn nad yw'n llwyddo. Rydych chi'n rhannu gwybodaeth briodol yn y sefydliad (gyda staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a buddiolwyr) a hefyd y tu allan i'r sefydliad (gyda chyllidwyr a sefydliadau eraill sy'n gwneud gwaith tebyg, lle y bo'n bosibl ac yn addas).

Rydych chi'n cydnabod ac yn disgrifio cyfyngiadau eich canfyddiadau, fel effeithiau pobl, lleoliad ac amseriad, ar i ba raddau y gellir trosglwyddo neu ail-greu'r gwersi hyn.

Pam?

- Creu amgylchedd o rannu'r hyn rydych chi'n ceisio ei gyflawni a'ch llwyddiannau a'ch methiannau, a all helpu sefydliadau sydd â buddiannau cyffredin i ddysgu oddi wrth ei gilydd a chyfrannu'n fwy effeithiol at effaith a rennir.
- Codi proffil eich sefydliad a chreu a chyrraedd, o bosibl, gynulleidfaoedd newydd a thrwy wneud hynny, gyfrannu at ein gwybodaeth ehangach o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio ac atgyfnerthu llais y sector gwirfoddol.
- Sicrhau gwerth ychwanegol i gyllidwyr. Gall cyllidwyr gyflawni mwy o'u buddsoddiad os bydd grantîon yn rhannu eu canfyddiadau yng nghyswllt effaith i helpu eraill sy'n gwneud gwaith tebyg i wella.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi'r egwyddor ar waith:

CYNLLUNIO	• Hyrwyddwch eich cynlluniau ar gyfer yr effaith rydych chi'n bwriadu ei chael i sefydliadau tebyg, i'w helpu i weld lle y gallai eu gwaith nhw gyd-redeg â'ch gwaith chi. Efallai y bydd rhai is-sectorau am archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu dulliau mesur effaith a rennir. • Rhannwch eich cynlluniau ar gyfer casglu gwybodaeth am eich effaith, lle bo'n bosib. Gall hyn fod yn eich sefydliad, gyda chyllidwyr, neu gyda sefydliadau tebyg eraill.
GWNEUD	• Rhannwch wybodaeth am yr hyn rydych chi'n ei wneud i ganolbwyntio ar eich effaith.
ASESU	• Amlygwch y dulliau rydych chi'n eu defnyddio i gasglu ac asesu gwybodaeth am eich effaith, a'u cryfderau a'u gwendidau. Efallai y bydd gwybodaeth gyfrinachol neu bryderon o ran trwyddedu a fydd yn eich cyfyngu rhag rhannu hyn, ond peidiwch â thybio hyn yn awtomatig.
ADOLYGU	• Dylech gyfleu eich canfyddiadau o ran effaith, yn cynnwys unrhyw wersi, llwyddiannau a meysydd i'w gwella. Gallai hyn fod ar ffurf adroddiad, taflen, fideo, tudalen we, digwyddiad, mewn sgwrs neu mewn fformat arall. Gall sefydliad cymorth neu fantell fod yn fforwm gwych ar gyfer rhannu gwersi.

Atodiad: Ynglŷn â'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith

O ble daeth y Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith

Ym mis Medi 2011, daeth 30 o arweinyddion ym maes effaith gymdeithasol at ei gilydd ar gyfer Uwchgynhadledd Effaith, a gynhaliwyd gan NESTA. Trafododd y cynadleddwyr sut gallai arweinyddiaeth a chydweithredu gynnwys ymarfer adrodd effaith yng ngwaith beunyddiol cannoedd ar filoedd o elusennau, mentrau cymdeithasol, cyllidwyr, comisiynwyr a buddsoddwyr sy'n rhan o'r sector di-elw yn y DU.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, sefydlwyd Inspiring Impact (inspiringimpact.org), dan arweiniad New Philanthropy Capital (NPC), gan weithio gyda saith partner. I sicrhau bod y rhaglen yn eiddo i'r sector, mae Inspiring Impact yn dwyn ynghyd y cyrff aelodaeth canlynol: ACEVO, NCVO ac ACF. I sicrhau ei bod yn adlewyrchu ymarfer gorau o ran mesur effaith, mae'n cynnwys yr arbenigwyr mesur Substance, Charities Evaluation Services ac NPC. I sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynnal ledled y DU, mae'n cynnwys Evaluation Support Scotland a Building Change Trust Gogledd Iwerddon.

Mae gan arweinyddion yn y sector di-elw rôl allweddol i'w chwarae i gynnwys ymarfer adrodd effaith yn eu sefydliadau. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith yn un o gynhyrchion allweddol gwaith Inspiring Impact i helpu arweinyddion i wneud hyn yn well drwy ddiffinio beth yw ymarfer da wrth adrodd effaith.

Mae'r Cod Ymarfer hwn ar gyfer Adrodd Effaith wedi'i ysbrydoli gan lwyddiant Llywodraethu Da: Cod i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol o ran rhoi sefydliadau di-elw ar ben ffordd a'u helpu i ddeall egwyddorion ymarfer da o ran llywodraethu. Mae hefyd yn adeiladu ar y canllawiau sy'n bodoli eisoes a grëwyd ar gyfer meysydd penodol o ymarfer adrodd effaith, yn cynnwys The Principles of Good Impact Reporting.

Yn sail i'r holl egwyddorion mae'r egwyddor ychwanegol o gydraddoldeb – gan sicrhau cynrychiolaeth, llais a thriniaeth gyfartal ar gyfer pob rhan o'r gymuned. Credwn fod hyn yn hollbwysig i bob un o'r wyth egwyddor, felly hefyd i'r sector di-elw yn gyffredinol.

Sut y datblygwyd y Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith

Sefydlwyd gweithgor yn 2012 i ddatblygu cynnwys y Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith. Roedd y grŵp yn cynnwys pobl o ystod eang o sefydliadau di-elw yn cynnwys cyrff seilwaith, gweithwyr proffesiynol ym maes effaith a sefydliadau darparu. Ymhlith y sefydliadau mae:

- Clymblaid Elusennau Bach
- Community Evaluation Northern Ireland (CENI)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Cenedlaethol (NCVO)
- Cymdeithas Dadansoddwyr Effaith Gymdeithasol
- Cymdeithas Genedlaethol Gweithredu Gwirfoddol a Chymunedol (NACVA)
- Cymorth Canser Macmillan (Laura Jenkins)
- Evaluation Support Scotland (ESS)
- Gwasanaethau Gwerthuso Elusennau (CES)
- Menter Gymdeithasol y DU
- New Philanthropy Capital (NPC)
- Prostate Cancer UK
- Rhwydwaith Archwilio Cymdeithasol
- Rhwydwaith SROI
- Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington
- Y Comisiwn Elusennau
- Y sefydliad economeg newydd (nef)

Rhoddir cydnabyddiaeth i'r canlynol ar y fersiwn drafft cynnar o'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith:

- Canolfan Ymchwil y Trydydd Sector
- Charity Finance Group (CFG)
- Marvellous Children's Charity - Roald Dahl
- Pro Bono Economics
- Surrey Community Action
- Triangle Consulting

Hwyluswyd y gwaith o ddatblygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith gan NCVO fel rhan o raglen Inspiring Impact.

Cynhyrchwyd gan NCVO ar gyfer Inspiring Impact

Mehefin 2013